Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Llanfairfechan

**Ysgol Babanod Llanfairfechan**
**Village Road**
**Llanfairfechan**
**Conwy**
**LL33 0AA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Cylch Chwarae Llanfairfechan

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Llanfairfechan |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Dd/G |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Karen Hall |
| Person â chyfrifoldeb | Karen Hall, Kirsty Evans |
| Nifer y lleoedd | 23 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 12 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 12 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | O ddydd Llun i ddydd Gwener 09:05 – 11:45 a 13:00 – 15:00 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad ar ôl cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 09/06/2015 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 09/05/2023 |
| Mae llawer o'r plant yn dod o gartrefi Saesneg. | |

## Crynodeb

| Thema | Dyfarniad |
| --- | --- |
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael fel sydd ei angen ar y plant

A2 Atgyfnerthu dull gweithredu'r lleoliad mewn perthynas â chynllunio a monitro cynnydd

A3 Sicrhau y caiff y plant mwy o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth

A4 Atgyfnerthu'r defnydd o asesiadau risg i gynnwys yr holl weithgareddau ac adnoddau chwarae â dŵr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Y prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae bron pob un o’r plant yn gwneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef, a’r iaith y maent yn cyfathrebu ynddi. Maent yn chwarae yn rhydd o dan do ac yn yr awyr agored ac maent yn hapus i aros eu tro weithiau pan fydd gweithgareddau fel yr ardal chwarae â dŵr yn brysur. Mae'r rhan fwyaf yn ei chael hi'n hawdd mynegi eu barn ar lafar. Mae nifer bach iawn yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau dieiriau er mwyn cael eu deall fel pwyntio ac iaith arwyddion sylfaenol a chânt eu canmol am roi cynnig ar eiriau, neu am eu hailadrodd yn gywir. Gwrandewir ar bob un ohonynt a chânt eu cefnogi'n dda iawn mewn perthynas â datblygu eu sgiliau cyfathrebu. Nodir eu syniadau ar gyfer gweithgareddau ar wal gyfathrebu, a chânt eu cynnwys yn llwyddiannus fel rhan o'r gweithgareddau wythnosol.

Mae bron pob un o'r plant yn setlo'n dda ac yn ymdopi â chael eu gwahanu o'u rhieni neu eu gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn rhedeg i mewn i'r lleoliad ac yn awyddus i chwarae. Mae'r rhai sydd angen sicrwydd yn cael digon o sylw ac mae'n ddigon hawdd tynnu eu sylw pan fyddant wedi dod i mewn drwy'r drws. Mae bron pob un o'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarn a chadarnhaol ag eraill, gan gynnwys y gweithwyr allweddol. Mae'r rhyngweithio yn gyson dda ac yn hybu eu

hunan-barch ac ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae'r plant yn dal dwylo'n hapus â'r ymarferwyr pan fyddant ar yr iard chwarae mawr, ac yn sgwrsio â nhw am bethau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae bron pob un o'r plant yn elwa ar ryngweithio cyson dda. Mae eu hymddygiad yn dda iawn ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae bron pob un ohonynt yn garedig at eraill ac yn dechrau ystyried teimladau pobl eraill yn ogystal â'u teimladau nhw eu hunain. Mae pawb yn ymateb yn briodol i unrhyw ymyriad gan yr ymarferwyr, pan ofynnir iddynt beidio â rhedeg, i fod yn garedig, ac i fod yn barod i rannu. Mae bron pob un yn hoffi derbyn canmoliaeth ac anogaeth, a chlywed sylwadau fel "that makes me so happy to see you sharing". Mae bron pob un yn awyddus i helpu i dacluso.

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr hyderus, brwdfrydig a chwilfrydig. Mae pob un yn dysgu drwy gyfleoedd chwarae diddorol ac ysgogol ac yn gwneud cynnydd da ym mhob maes dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu ac yn eistedd yn llonydd ac yn dawel ar gyfer gweithgareddau hwiangerddi a chân, storïau, a dangos a dweud. Mae'r rhan fwyaf yn dyfalbarhau wrth ddysgu Cymraeg a Saesneg, ac wrth wneud gwaith celf creadigol, gan wneud gludweithiau gan ddefnyddio darnau rhydd bach. Mae nifer bach o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n eithriadol o dda i ganolbwyntio ar dasgau ac i ddatblygu eu lleferydd. Cytunir ar broffiliau un dudalen sy'n cynnwys targedau â'r rhieni ac asiantaethau arbenigol. Mae pob un o'r plant yn falch o'u cyflawniadau, sy'n cael eu rhannu â'r rhieni ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn cael eu harddangos ar y waliau.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth drwy chwarae a thrwy eu trefn ddyddiol arferol. Mae pob plentyn yn dysgu i dacluso ar ôl chwarae rhydd ac amser byrbryd, i olchi eu dwylo ac i wisgo ar gyfer cyfleoedd chwarae yn yr awyr agored. Gellid cryfhau sgiliau annibyniaeth y plant drwy ganiatáu iddynt arllwys eu diodydd eu hunain.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau iaith yn dda, gan fynegi eu hunain drwy ystumiau neu leferydd. Maent yn defnyddio hen ffonau i esgus gwneud galwad, gan wasgu'r botymau a siarad â'i gilydd. Mae llawer o'r plant yn datblygu eu sgiliau gwrando yn dda. Maent yn mwynhau storïau cyfarwydd a ddarllenir gan yr oedolion ac maent yn awyddus i ragfynegi beth allai ddigwydd nesaf, ac yn ymuno ag ymadroddion cyfarwydd.

Mae tua hanner y plant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn edrych ar stori'r lindysyn llwglyd wrth wylio lindys yn tyfu ar y bwrdd diddordebau. Maent yn troi tudalennau yn hyderus ac yn ceisio cyfrif, gyda chymorth, y nifer o ffrwythau a fwytaodd y lindysyn yn y stori.

Mae llawer o'r plant yn dechrau datblygu eu sgiliau gwneud marciau yn dda ac mae nifer bach ohonynt yn dechrau datblygu gafael priodol wrth ddefnyddio gwahanol

ysgrifbinnau. Mae llawer yn gwneud marciau adnabyddadwy ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol gan ddefnyddio ‘pen’ digidol ac yn mwynhau her wrth iddynt geisio dyfalu sut i newid y lliw.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau ymuno â chaneuon Cymraeg syml yn ystod amser cylch. Maent yn dweud ‘dyma fi’ wrth ymateb i’r gofrestr ac yn cyfrif i dri wrth aros i ganu cân. Maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau syml. Mae bron pob un o’r plant sy’n dod o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith yn deall pan fydd yr ymarferwyr yn sgwrsio â nhw am ble yr hoffent chwarae ac yn rhoi cyfarwyddiadau mwy cymhleth.

Mae bron pob un o’r plant yn dangos hyder â'u sgiliau corfforol. Maent yn gallu cicio pêl ac maent yn dysgu sut i rolio cylchoedd. Maent yn defnyddio rhawiau mawr yn hyderus yn y pwll tywod awyr agored i symud tywod i beiriant cloddio bach. Maent yn mwynhau defnyddio darnau mawr o ffabrig a rhubanau wrth ddawnsio. Mae rhai o'r plant yn dod yn hyderus wrth ddefnyddio siswrn, gan dorri i mewn i'r toes. Maent yn trin plu, gemau, a glanhawyr pibellau yn hyderus i addurno anghenfil y maent wedi'i greu neu i greu lluniau yn yr awyr agored.

Mae llawer o'r plant yn datblygu sgiliau rhifedd priodol. Maent yn datrys problemau fel dewis y deunyddiau gorau i adeiladu cartref i'r Gryffalo, gan ddibynnu a ydynt yn drwm neu'n ysgafn. Maent yn defnyddio iaith mawr a bach wrth chwarae ac yn adalw'r rhifau sy'n bwysig iddynt. Er enghraifft, maent yn gwybod eu bod yn dair a bod ganddynt 5 lindysyn yn tyfu. Maent yn cyfateb lliwiau'n gywir wrth greu lluniau â ffyn lolipop a phom poms ac yn tynnu ffotograffau o'r hyn y maent wedi'i greu yn hyderus ar lechen.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae’r ymarferwyr yn diogelu pob plentyn yn effeithiol. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad ac yn cydymffurfio â'r asesiadau risg yn briodol. Mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo lles y plant yn llwyddiannus drwy ffyrdd iach o fyw, gweithgarwch corfforol a diogelwch personol. Er enghraifft, mae pob un wedi cael hyfforddiant diogelu. Mae nifer bach iawn yn aros i ddiweddaru eu cymhwyster cymorth cyntaf. Maent yn wybodus ac yn rhoi cymorth cyntaf a meddyginiaeth yn effeithiol ac yn cadw cofnodion da. Mae swyddog diogelu’r lleoliad yn gweithio’n dda gyda’r ysgol, yr ymwelwyr iechyd a’r awdurdod lleol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r ymarferwyr yn annog y rhieni i anfon byrbrydau iach, ac mae'r arweinwyr yn darparu carton ffres o laeth i bob plentyn bob dydd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod proses recriwtio gadarn ar waith a bod yr ymarferwyr yn addas i weithio gyda'r plant. Mae'r trefniadau sydd ar waith, mewn partneriaeth â'r ysgol, ar gyfer diogelwch y safle a diogelwch cyffredinol yn dda.

At ei gilydd, mae'r gofal a roddir i'r plant yn hyrwyddo cydberthnasau cynnes, diogelwch, hunan-barch, annibyniaeth a hyder. O ganlyniad, mae ymddygiad y plant yn dda iawn. Mae lleiafrif o'r ymarferwyr wedi mynychu sesiynau ‘Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth’ ac yn rheoli ymddygiad pob plentyn mewn ffordd sy’n parchu ei hawliau ac yn ei gadw’n ddiogel. Mae pob ymarferydd yn gwneud cyswllt llygad â'r plant, yn

siarad â nhw ar eu lefel ac yn nodi faint o amser sydd gan y plant cyn i'w gweithgaredd ddod i ben. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn yn ymwybodol o'r disgwyliadau. Mae'r ymarferwyr yn modelu ymddygiad da ac maent yn ymateb mewn ffordd gynhwysol a phwyllog wrth ymdrin â'r achosion achlysurol o ymddygiad annymunol a theimladau o rwystredigaeth a geir gan nifer bach iawn o'r plant.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn helpu'r plant i gyfathrebu'n dda ac maent yn sensitif i'w hanghenion a'u profiadau a fydd yn ymestyn eu dysgu. Er enghraifft, roedd plentyn yn awyddus i ddefnyddio chwistrell ac roedd am wybod sut roedd y dŵr yn cael ei dynnu i fyny drwy'r twll chwistrellu. Canolbwyntiodd a llwyddodd i ddod o hyd i'r ateb ei hun. Roedd yr ymarferwyr yn cytuno bod dull 'cynllunio ymatebol' yn cael ei ddatblygu ond maent yn deall sut y bydd dilyn diddordebau'r plant yn hyrwyddo dysgu'r plant. Mae'r ymarferwyr yn gofyn am gyngor gan y rhieni a chan gwasanaethau arbenigol, ac yn gweithio gyda nhw mewn ffordd effeithiol, i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da**

Mae gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a sut mae'r plant yn dysgu drwy chwarae. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni ac asiantaethau allanol i gefnogi'r plant, yn enwedig mewn perthnas â datblygu lleferydd ac iaith. Maent yn darparu amrywiaeth effeithiol o adnoddau i'r plant yn yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau o ran ble yr hoffent chwarae. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb yn eu dysgu a'u chwarae am gyfnodau priodol o amser.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu sgiliau llythrennedd y plant yn briodol; maent yn eu hannog i wrando ar storïau ac i ymuno yn y rhannau cyfarwydd. Maent yn annog defnydd priodol o bensiliau a sisyrnau i greu gludweithiau gan ddefnyddio darnau rhydd bach. Maent yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu sgiliau corfforol drwy gynnig cyfarpar fel peli, llithrennau a rhawiau mawr ar gyfer palu. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu sgiliau rhifedd y plant. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gyfrif eitemau mewn hoff lyfr ac yn defnyddio iaith maint yn briodol pan fyddant yn adeiladu gyda blociau. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gofyn cwestiynau perthnasol wrth i'r plant chwarae. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn herio'r plant yn ddigon da ac mae rhai cyfleoedd yn cael eu colli i ymestyn dysgu'r plant, yn enwedig mewn perthynas â datblygu sgiliau annibyniaeth.

Mae pob ymarferydd yn cefnogi sgiliau cymdeithasol y plant mewn ffordd addas. Maent yn atgoffa'r plant i olchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac i fod yn garedig wrth eu ffrindiau. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am bethau byw. Er enghraifft, maent yn annog y plant i wylio'r lindys yn tyfu dros amser ac yn eu hatgoffa i'w cadw'n ddiogel.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac mae ychydig yn ymateb i anghenion y plant drwy ddefnyddio iaith fwy cymhleth lle mai Cymraeg yw mamiaith y plentyn. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddathlu hanes a

diwylliant Cymru. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sôn wrth y plant am safleoedd lleol fel castell Conwy ac yn cynnig pice ar y maen iddynt ar Ddydd Gŵyl Dewi. Caiff y plant eu hannog i chwilio am faner Cymru pan fyddant allan gyda'u teulu ac mae llyfr o ffotograffau wedi'i ddarparu ar gyfer yr ardal ddarllen. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o'r ardal leol. Er enghraifft, maent yn mynd â'r plant i ymweld â choetir lleol i chwilio am y Gryffalo ar ôl darllen y stori.

Mae'r lleoliad yn dechrau gweithredu dull cynllunio mwy ymatebol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n ddiwyd i gynllunio cyfleoedd chwarae ac yn ymateb i ddiddordebau'r plant drwy addasu'r ddarpariaeth pan fyddant yn gofyn am adnodd gwahanol. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn monitro datblygiad y plant yn ddigon manwl nac yn addasu'r ddarpariaeth i gefnogi eu dysgu.

**Yr Amgylchedd:  Da**

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Gofynnir i ymwelwyr ddangos bathodynnau adnabod, cofrestru a gwrando ar y gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân. Mae ffensys uchel wedi'u gosod o amgylch pob ardal chwarae awyr agored, a gellir cloi'r giatiau â chlo clwt. Mae paent melyn ar ymyl pob un o'r stepiau sy'n arwain at yr adeilad, er mwyn tynnu sylw atynt. Caiff y drysau allanol eu cloi ac mae cloeon bawd wedi'u gosod arnynt er mwyn gallu eu hagor yn gyflym o'r tu mewn. Caiff yr asesiadau risg ar gyfer yr adeilad, y cyfleusterau a ddefnyddir gan y plant, gwibdeithiau, a gweithgareddau peryglus eu hadolygu bob blwyddyn. Mae'r arweinwyr yn gwbl ymwybodol o fanteision cyfleoedd i gymryd risgiau, ac yn eu cynnwys fel rhan o'u hasesiadau. Yn ddiweddar gwnaed addasiadau i'r pwll tywod mawr ac archebwyd gorchudd newydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau chwarae â dŵr, y risgiau sy'n gysylltiedig â chasglu dŵr mewn cyfarpar nad yw'n cael ei ddefnyddio, a'r defnydd diogel o gasgenni dŵr.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd croesawgar a chyfoethog, sy'n diwallu anghenion y plant, ac yn eu galluogi i ddysgu drwy chwarae a chyrraedd eu potensial. Mae'r ardaloedd dan do yn groesawgar, yn eang ac wedi'u haddurno'n llachar, ac yn cynnwys prif ystafell chwarae, ystafell chwarae blêr, cegin, ystafell gotiau, mynedfa a thoiled a chyfleusterau newid cewynnau. Mae digon o bosteri, arwyddion a labeli dwyieithog yn cael eu harddangos. Mae'r ardal awyr agored yn cynnig ardal chwarae ysgogol a diogel wedi'i gorchuddio'n rhannol, ac mae iard chwarae ysgol gyfagos ac ardal ysgol goedwig hefyd ar gael. Nid oes gan yr arweinwyr swyddfa nac ystafell staff, felly anogir yr ymarferwyr i adael y safle yn ystod eu hegwyl amser cinio, pan fydd y plant yn mynychu'r 'clwb cinio' anghofrestredig. Mae'r ymarferwyr yn dychwelyd i'r cylch chwarae i ofalu am y plant Nursery Plus sy'n mynychu yn ystod y prynhawn. Mae dogfennau cyfrinachol yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau ffeilio y gellir eu cloi. Os oes angen i'r arweinwyr siarad â'r rhieni, maent fel arfer yn gwneud hynny mewn ffordd mor gynnil â phosibl, ar iard yr ysgol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y dodrefn a'r cyfarpar a ddefnyddir o ansawdd da, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn briodol ar gyfer oedran y plant. Mae adnoddau o ansawdd da ym mhob ardal yn ehangu gwybodaeth a datblygiad y plant ac yn ysgogi

eu chwilfrydedd a'u diddordeb. Maent ar gael yn hawdd i bob plentyn. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol ar gael i'r plant eu defnyddio yn eu cegin fwd, ac mae cynwysyddion, olwynion dŵr ac offer ar gael iddynt yn eu cafn dŵr. Roedd eu llong môr-ladron yn llawn clustogau meddal, llenni a chasgliad o lyfrau a oedd yn gysylltiedig â'r pwnc ac roedd digon o blanhigion, caniau dyfrio a chwyddwydrau yn yr ardd. Mae'r arweinwyr hefyd yn sicrhau bod gan y plant le i ddefnyddio llithren fach a thegan siglo yn ddiogel. Mae detholiad priodol o adnoddau amlddiwylliannol ac adnoddau Cymraeg traddodiadol ar gael.

Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo ymdrechion i ailgylchu ac i ddefnyddio eitemau cynaliadwy y maent yn eu casglu. Maent yn dechrau defnyddio eitemau chwarae dilys yn eu cornel gartref, ac yn dechrau darparu eitemau pren yn lle'r eitemau chwarae plastig fel dodrefn y gegin.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ddatganiad o ddiben clir sy'n amlinellu sut mae'r lleoliad yn gweithredu. Mae gan yr ymarferwyr gymwysterau addas ac mae ganddynt gyfoeth o brofiad o weithio gyda phlant ifanc. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn datblygu eu dulliau addysgu yn unol â'r canllawiau.

Mae arweinydd y lleoliad yn effeithiol yn ei rôl. Mae'n arwain y lleoliad yn dda gan greu ethos cadarnhaol a hapus i'r plant, yr ymarferwyr a'r rhieni. Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos â hi, a chânt eu cefnogi'n effeithiol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac maent yn gyfforddus yn mynd at yr arweinydd â phryderon neu ymholiadau. Mae gan arweinydd y lleoliad system effeithiol ar gyfer gwerthuso perfformiad y staff ac mae'r ymarferwyr yn ymrwymedig i hyfforddiant parhaus. Er enghraifft, maent wrthi'n cwblhau rhywfaint o waith dysgu proffesiynol er mwyn datblygu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r plant ac, o ganlyniad, mae dealltwriaeth y plant o'r Gymraeg wedi gwella.

Mae'r arweinwyr wedi rhoi prosesau cadarn ar waith ar gyfer hunanwerthuso ac mae arweinydd y lleoliad yn myfyrio ar gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella yn aml. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o anghenion datblygu'r lleoliad, gan ystyried barn y staff, y rhieni a'r gofalwyr. Mae'n gweithredu prosesau datblygu pwrpasol, sy'n llwyddo i wella'r cyfleoedd dysgu i'r plant. Mae'n cyfleu ei gweledigaeth i'r ymarferwyr ac o ganlyniad mae pawb yn deall y blaenoriaethau allweddol o ran gwella'r lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da iawn o'r grantiau sydd ar gael i wella'r amgylchedd dysgu a'r adnoddau. Er enghraifft, gosodwyd drws newydd ar y lleoliad yn ddiweddar, gan greu mynediad uniongyrchol i'r ardal awyr agored sy'n golygu bod mwy o'r plant yn mynd allan i ddysgu yn yr awyr agored pan fyddant yn cael dewis gwneud hynny.

Mae arweinydd y lleoliad a'r ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol fel yr ymwelwyr iechyd a'r tîm datblygiad plant. Mae'r cymorth a gânt gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol o fudd mawr iddynt. Maent yn gweithio'n agos â'r Cynllun Cyn-ysgol Iach ac yn gweithio tuag at gyflwyno'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae’r lleoliad wedi’i leoli yn yr ysgol gynradd leol ac mae’r cyfathrebu cyson rhwng yr ymarferwyr a staff yr ysgol yn helpu'r plant i drosglwyddo’n effeithiol. Mae plant y cylch chwarae yn mynychu cyngherddau yn yr ysgol ac yn dod i adnabod staff y blynyddoedd cynnar yn dda gan eu bod yn eu gweld yn rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio llwyfan ar-lein i rannu gwybodaeth â'r rhieni a'r gofalwyr am ddiwrnod eu plentyn yn y cylch chwarae. Maent yn rhannu lluniau o'r plant yn mwynhau amrywiaeth eang o weithgareddau difyr. Caiff y rhieni eu hysbysu am gynnydd eu plentyn drwy sgyrsiau anffurfiol ag arweinydd y lleoliad ar ddechrau a diwedd y sesiwn. Mae arweinydd y lleoliad yn cefnogi'r teuluoedd yn dda iawn, gan gynnig gwybodaeth a chyngor, yn enwedig ar gyfer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn un o gryfderau penodol y lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd y darparwr gan ddefnyddio graddfa dyfarnu pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer cryf iawn, parhaus |
| **Da** | Llawer o gryfderau heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mwy o gryfderau na gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Mwy o wendidau pwysig na chryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2023